MEHEFIN 2024

NASUWT The Teachers' Union CYMRU Undeb yr Athrawon

# CYMRU BRIFFIO

**Adolygu datblygiad proffesiynol yw y rheoli perfformiad newydd. Mynnwch reolaeth ohono nawr!**

Mae Rheoli Perfformiad yn Newid.

Mae'n hanfodol eich bod yn cael rheolaeth ar y newidiadau hynny i reoli eich llwyth gwaith.

Bydd y ddogfen hon yn dweud wrthych beth sy'n newid a beth allwch chi ei wneud i reoli'r newid hwnnw.

Mae Rheoli Perfformiad yn seiliedig ar Reoliadau Arfarnu 2011. Mae'n bwysig nodi nad yw'r rhain yn newid a'u bod yn cael blaenoriaeth dros unrhyw newid a wneir yn eich ysgol. Gellir dod o hyd iddynt yma:

Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno canllawiau newydd sy'n disodli canllaw Rheoli Perfformiad 2012. Nid yw'r papur briffio hwn yn mynd i fanylion y broses newydd a chynghorir aelodau i ddarllen y canllawiau yn ofalus. Gellir dod o hyd iddo yma:

Adolygu datblygiad proffesiynol - Hwb (llyw.cymru)

Mae'r canllaw newydd hwn yn ailddehongli Rheoli Perfformiad ac yn ei alw'n Adolygu Datblygiad Proffesiynol (ADP). Mae'r ADP i fod i fod yn gefnogol, ond mae ganddo'r potensial i fod yn drwm iawn o ran llwyth gwaith. Mae'r papur briffio hwn yn dangos i chi beth allwch chi ei wneud i reoli'r newid hwn ac i reoli eich llwyth gwaith. Mae angen edrych ar hyn ar frys oherwydd mae'r ADP ar gael i ysgolion yn barod ac efallai ei fod eisoes wedi'i gyflwyno i'ch ysgol, neu ar y ffordd yn fuan.

Mae'n bwysig nodi'r mesurau diogelu llwyth gwaith canlynol sydd yn y ADP:

- Rhaid i'r ysgol gynllunio i ddarparu yr amser a'r gofod sydd eu hangen.
- Dylai ADP gefnogi lles ymarferwyr.
- Un o Werthoedd y ADP yw 'asiantaeth'. Diffinnir hyn fel 'Cael yr amser a'r lle i ymgysylltu â, myfyrio ar, a mapio eich taith ddysgu broffesiynol eich hun i ddiwallu anghenion dysgwyr, o fewn diwylliant ac amgylchedd cefnogol'.
- Ni ddisgwylir i ymarferwyr ddarparu tystiolaeth yn erbyn pob disgrifydd o'r Safonau Proffesiynol.
- Mae'n rhaid i bob ysgol gael polisi ADP a rhaid ymgynghori â'r holl ymarferwyr (ac eithrio athrawon digyswllt) yn yr ysgol.
- Mewn ymgynghoriad dylid parchu rôl yr Undebau Llafur cydnabyddedig yn llawn.

- Rhaid neilltuo amser yn ystod Amser Cyfarwyddiedig i gynnal cyfarfodydd ADP. Felly ni ddylai'r rhain ddigwydd amser cinio neu egwyl nac yn ystod amser CPA. Rhaid cynllunio ADP, felly mae angen neilltuo amser fel rhan o galendr yr ysgol.
- Disgwylir i'r ymarferydd a'r Partner ADP (enw newydd yr arweinydd Tîm) gytuno ar flaenoriaethau datblygu. Fodd bynnag, os na wnânt, mae gan y Partner ADP y gallu i'w gorfodi arnoch. Gall athrawon, lle gosodwyd blaenoriaethau arnynt, wneud sylwadau ysgrifenedig ar y rhain a chynghorir aelodau i wneud hynny os ydynt yn anghytuno â'r blaenoriaethau a orfodwyd.
- Rhaid i'r blaenoriaethau datblygu ystyried dyheadau proffesiynol yr ymarferwyr.
- I gefnogi'r Cynllun ADP dylai ymarferwyr gael mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol priodol trwy Hwb ac ar lefel ysgol ynghyd â'r amser i weithio tuag at eu blaenoriaethau datblygu.
- Dylai cymorth proffesiynol yn yr ysgol fod ar gael i bob ymarferydd.
- Bydd yr ysgol yn darparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio.
- Mae gofyniad statudol i'r Partner ADP arsylwi'r ymarferydd o leiaf unwaith yn ystod y cylch adolygu. Yn hytrach na chanolbwyntio ar nifer yr arsylwadau, anogir yr ymarferwyr a phartneriaid ADP i feddwl yn ofalus am ddiben, natur a chanlyniad disgwyliedig yr arsylwadau er mwyn sicrhau eu bod yn adeiladol. Disgwylir i ysgolion greu'r amodau lle mae arsylwi a gweithgareddau eraill yn cael eu gweld fel cyfle gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol, gwelliant parhaus a chydgefnogaeth.

**Bygythiad Llwyth Gwaith ADP**
O'i adael heb ei reoli, mae gan ADP y potensial i fod yn hunllefus o drwm o ran llwyth gwaith i athrawon – yn arbennig mewn ysgolion lle nad yw llwyth gwaith a lles athrawon yn cael eu cymryd o ddifrif. Mae hyn oherwydd:

- Gall y Partner ADP orfodi Blaenoriaethau Datblygu.
- Mae perygl i ymarferwyr gytuno neu dderbyn gynlluniau ADP sydd rhy uchelgeisiol a allai greu gormod o waith i'w cyrraedd.
- Mae'r ADP yn cyfeirio'n benodol at sesiynau galw heibio, teithiau dysgu a chraffiadau llyfrau sy'n straen ac yn drwm o ran llwyth gwaith ac agor y drws ar gyfer bwlio a gweithgareddau monitro eithafol.

**Sut i ddelio â bygythiad llwyth gwaith ADP**
Gall aelodau ymateb i fygythiadau ADP yn y ffyrdd canlynol:

- Mae'n ofynnol yn y canllawiau, ac yn gwbl hanfodol bod NASUWT yn ymwneud â chreu Polisi ADP ysgolion. Os nad oes gan eich ysgol Gynrychiolydd NASUWT yna dylai aelodau gysylltu â'u Hysgrifennydd Lleol neu gyda Canolfan Cymru **(rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk)**. Dylai'r polisi ADP sicrhau y cedwir at werthoedd ac egwyddorion ADP fel bod athrawon yn cael amser a lle i ddatblygu fel ymarferwyr. Mae Llywodraeth Cymru a NASUWT eisiau gweld proses o ddatblygiad proffesiynol gefnogol. Ni ddylai fod yn declyn craffu a monitro gothrymus. Mae cyfle ii reoli hyn ar y dechrau pan fydd y Polisi'n cael ei ysgrifennu.

- Dylai Aelodau geisio sicrhau bod y cynllun ADP yn rhesymol a bod y modd y caiff ei fonitro yn briodol i flaenoriaethau y Cynllun Datblygu. Nid yw pob blaenoriaeth yn gofyn am arsylwi gwersi, teithiau dysgu ac ai, ac mae angen nodi hyn yn y cyfarfod cynllunio gyda'r Partner ADP. Dylid nodi bod y Rheoliadau Arfarnu yn datgan mai un wers yn unig sydd ei hangen a chyngor NASUWT yw na ddylai fod mwy na thri arsylwad yn y flwyddyn academaidd.
- Dylai aelodau sicrhau eu bod yn cael yr amser a'r lle i gyflawni'r ADP ac na ddefnyddir eu hamser egwyl, amser cinio na CPA i'r diben hwn. Mae'n rhaid neilltuo amser penodol yng nghalendr yr ysgol. Ni ddylai hwn fod yn drefniant ad hoc fel aros ar ôl ysgol ar gais y Partner ADP.
- Mae gan athrawon yr hawl i gymorth ar gyfer ADP. Gall hyn fod yn fewnol, ond os nad yw hynny ar gael yna mae'r pennaeth yn gyfrifol am ddod o hyd i'r gefnogaeth honno y tu allan i'r ysgol.
- Rhaid hyrwyddo gweithio ar y cyd a dylid rhoi cyfleoedd i athrawon drafod eu cynnydd mewn "gofod diogel". Dylai aelodau sicrhau bod y cymorth hwn ar gael iddynt.

Mae Llywodraeth Cymru am i'r ADP fod yn declyn cefnogol, datblygiadol i athrawon yng Nghymru. Fodd bynnag, nid ydynt wedi ymdrin â'r potensial o fewn y Rheoliadau Arfarnu ar gyfer arfer gwael o fonitro gormodol ac atebolrwydd gothrymus sy'n bodoli mewn llawer o ysgolion yng Nghymru. Mae'r canllawiau ADP yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion fabwysiadu y dull partneriaeth gymdeithasol wrth fabwysiadu polisi newydd. Mae hwn yn gyfle na ddylid ei golli a dylai alluogi aelodau i ymdrin â'r sbardunau llwyth gwaith sy'n gyrru'r broses Rheoli Perfformiad bresennol.

**Mae NASUWT yn cynghori pob aelod i fachu ar y cyfle hwn.**

**Sicrhewch fod Polisi ADP eich ysgol yn gyfeillgar i athrawon.**

**Mae'n ofynnol i'ch ysgol ymgynghori â chi ynghylch y Polisi ADP.**

**Bydd NASUWT yn cefnogi'n dorfol mewn unrhyw ysgol lle mae aelodau'n dioddef pwysau llwyth gwaith andwyol o ganlyniad i'r ADP.**

Ffôn: **029 2054 6080** E-bost: **rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk** **www.nasuwt.org.uk**